
Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



# Polisi Buddsoddi Moesegol

**Polisi Buddsoddi Moesegol**

Mae Polisi Buddsoddi Moesegol y Brifysgol yn adlewyrchu gwerthoedd moesegol ei myfyrwyr, ei staff, cymunedau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, a'r holl randdeiliaid eraill mewn perthynas â phenderfyniadau buddsoddi. Mae'n adlewyrchu cwmpas llawn portffolio buddsoddi'r Brifysgol. Dymuna'r Brifysgol ymgysylltu'n adeiladol â sectorau preifat a chyhoeddus, gyda'r bwriad o sicrhau'r budd cyhoeddus mwyaf a chynaliadwyedd ariannol. Felly nid yw penderfyniad i fuddsoddi o reidrwydd yn atal buddsoddi lle mae'r enillion a ddisgwylir yn is nag uchafswm difidendau'r buddiannau masnachol a allai gronni, lle gallai mynd ar ôl hynny fod yn niweidiol i ymrwymiadau'r Brifysgol. Mae'r Polisi Buddsoddi Moesegol o'r un pwys â pholisïau buddsoddi eraill o fewn y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn dechrau ar gyfnod o fuddsoddi cyfalaf cynyddol, a gyllidir yn rhannol gan fuddsoddiadau trydydd parti cyfredol. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Y Drindod Dewi Sant yn y lle cyntaf yn ceisio cael at a thynnu i lawr cyllid mewn portffolios a seilir ar danwyddau ffosil a phortffolios nad ydynt yn gyson â'r polisi hwn.

Bydd y Brifysgol yn ystyried canlyniadau moesegol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ei buddsoddiadau. Bydd y Brifysgol yn dilyn methodoleg 'driphlyg' yn y broses o wneud penderfyniadau, a fydd yn cynnwys: sgrinio, ystyried y dewis sy'n cael ei ffafrio, ac ymgysylltu. Gellir defnyddio'r strategaethau hyn yn unigol neu mewn cyfuniad, er enghraifft defnyddio sgrinio gyda nifer bach o feini prawf, ac yna ystyried y dewis sy'n cael ei ffafrio o blith y rhestr o gwmnïau derbyniol sy'n weddill i ddynodi effeithiau cadarnhaol a negyddol y cwmnïau. Rhydd y Brifysgol flaenoriaeth i fentrau cymdeithasol, cwmnïau ag arferion cyflogi da, sy'n dangos parch at hawliau dynol, sy'n ymgorffori cyfrifoldeb corfforaethol yn eu gweithrediadau beunyddiol, sy'n anelu at leihau eu heffaith ecolegol a chyfrannu i'r gymuned ehangach. Yn ogystal â ffactorau confensiynol rydym hefyd yn ystyried i ba raddau mae cwmni yn deall ac yn rheoli'r bygythiadau a'r cyfleoedd cymdeithasol ac amgylcheddol y mae'n eu hwynebu. Mae'r persbectif ychwanegol hwn yn ein galluogi i ddynodi cwmnïau sy'n ddelfrydol i wynebu heriau'r dyfodol.

Ni fydd y Brifysgol o fwriad yn buddsoddi mewn cwmnïau y mae eu gweithgareddau yn cynnwys arferion sy'n achosi risg uniongyrchol o niwed difrifol i unigolion neu grwpiau, neu y mae eu gweithgareddau yn anghyson â chenhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol.

Er mwyn rhoi ei hymrwymiad i'r polisi hwn ar waith bydd y Brifysgol yn datblygu Cynllun Gweithredu Buddsoddi Moesegol. Cydlynir y Cynllun gan y Pennaeth Gweithredu Cynaliadwyedd. Yr Uwch Dîm Rheoli sydd yn dal cyfrifoldeb am weithrediad y Cynllun Gweithredu. Mae'r Cynllun yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Adnoddau. Prif amcanion y Cynllun yw:

- Peidio ag ymgymryd yn fwriadol â buddsoddiadau newydd mewn cwmnïau arfau neu gorfforaethau sy'n euog o dorri'r gyfraith ryngwladol.
- Gwaredu cwmnïau tanwyddau ffosil drwy flaenoriaethu tynnu i lawr o gronfeydd cyfredol a fuddsoddir mewn cwmnïau tanwyddau ffosil wrth gyllido buddsoddiadau cyfalaf sydd ar ddod.
- Adolygu'r polisi hwn a'i gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Buddsoddi Moesegol o leiaf unwaith y flwyddyn yn y Pwyllgor Adnoddau.
- Ystyried achosion gan aelodau cymuned y Brifysgol, gan gynnwys y corff myfyrwyr, drwy strwythur pwyllgorau'r Brifysgol, parthed materion na ddylai'r Brifysgol fuddsoddi, neu y dylai ddadfuddsoddi, mewn cwmnïau penodol.
- Darparu canllawiau i reolwyr cronfeydd sy'n gyfrifol am fuddsoddiadau'r Brifysgol.
- Darparu prosesau clir er mwyn i randdeiliaid gyflwyno achosion am gwmnïau a sectorau sydd yn torri'r Polisi Buddsoddi Moesegol.
- Cynyddu, lle bo'n ymarferol, ganran y buddsoddiadau a roddir mewn cronfeydd sydd yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol gyfrifol.

Fel buddsoddwr, mae gan y Brifysgol dair ffordd o ddwyn pwysau ar ymddygiad corfforaethol, sef caffael yn ddoeth, gwaredu ac ymgysylltu. Bydd y Brifysgol yn defnyddio strategaeth waredu os bernir bod y cwmni yr ydym yn buddsoddi ynddo yn torri safonau moesegol ac amgylcheddol yn sylfaenol.

Golyga *caffael yn ddoeth* y bydd rheolwyr buddsoddi'r Brifysgol yn gweithredu'r meini prawf moesegol ac amgylcheddol wrth ddatblygu portffolio buddsoddi'r Brifysgol.

Strategaeth pan fetho popeth arall yw *gwaredu* os bydd Cwmni y mae'r Brifysgol yn dal cyfranddaliadau ynddo yn torri safonau buddsoddi moesegol yn sylfaenol.

Disgrifia *ymgysylltu* ystod o strategaethau a fyddai'n galluogi'r Brifysgol i bleidio ymlyniad pellach wrth safonau moesegol ac amgylcheddol gan gwmnïau sy'n arddangos arferion busnes cyfrifol yn gymdeithasol ac amgylcheddol, sydd yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion y Brifysgol.

Adolygir y Polisi Buddsoddi Moesegol yn flynyddol. Cydlynir newidiadau i'r Polisi gan y Pennaeth Gweithredu Cynaliadwyedd mewn cydweithrediad â phartïon perthnasol, gan gynnwys yr Adran Gyllid ac Undeb y Myfyrwyr, cyn eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Adnoddau. Bydd gweithrediad y polisi hwn, fel y'i adlewyrchir yn y Cynllun, yn cael ei adrodd i a'i ystyried gan yr Uwch Dîm Rheoli, a'i ymgorffori yn yr adroddiadau blynyddol.

Llofnod:

Dirprwy Is-Ganghellor (Cyllid a Chynllunio)

Dyddiad: